# CYNGOR SIR

# 10 EBRILL 2019

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| H.I. Jones | F. Akhtar | S.M. Allen | L.R. Bowen |
| K.V. Broom | C.A. Campbell | D.M. Cundy | T.A.J. Davies |
| G. Davies | H.L. Davies | I.W. Davies | J.A. Davies |
| S.L. Davies | W.R.A. Davies | E. Dole | J.S. Edmunds |
| P.M. Edwards | H.A.L. Evans | L.D. Evans | R.E. Evans |
| W.T. Evans | A.L. Fox | S.J.G. Gilasbey | C.J. Harris |
| P. Hughes-Griffiths | T.M. Higgins | J.K. Howell | P.M. Hughes |
| A. James | J.D. James | R. James | D.M. Jenkins |
| G.H. John | C. Jones | B.W. Jones | D. Jones |
| G.R. Jones | T.J. Jones | A. Lenny | M.J.A. Lewis |
| K. Lloyd | K. Madge | S. Matthews | A.S.J. McPherson |
| E. Morgan | A.G. Morgan | S. Najmi | J.S. Phillips |
| D. Price | B.A.L. Roberts | E.M.J.G. Schiavone | H.B. Shepardson |
| A.D.T. Speake | L.M. Stephens | D. Thomas | E.G. Thomas |
| G. Thomas | J. Tremlett | A. Vaughan Owen | D.T. Williams |
| D.E. Williams | J.E. Williams. | | |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**
M. James, Prif Weithredwr;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant;
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
J. Jones, Rheolwr Cynnal a Chadw Eiddo;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10:00yb - 12:20yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.A. Curry, C.A. Davies, K. Davies, D.C. Evans, D. Harries, J.P. Jenkins, B. Thomas, B.D.J. Phillips, D. Nicholas, J.G. Prosser a G.B. Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y cynghorydd | Rhif y Cofnod | Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| R. James | 12.1 – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW), (Chwefror, 2019) | Mae'n derbyn ad-daliadau costau gofal. |

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad diffuant i deulu'r diweddar Gerald Meyler.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddigwyddiadau diweddar a oedd yn cynnwys:

  - Agoriad Swyddogol y ffordd gyswllt newydd rhwng Nant-y-ci a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant;

  - cwblhau'r gwaith ffordd hanfodol yng nghanol tref Rhydaman;

  - cwblhau'r Ysgol Gynradd Newydd yn Llangadog a'r estyniad newydd yn Ysgol Gynradd Pontyberem;

  - Dadorchuddio plac glas ym Mancyfelin i anrhydeddu un o blant y pentref a ddaeth yn chwaraewr Rygbi uchel ei barch yn fyd-eang, Delme Thomas;

  - Dadorchuddio hysbysfwrdd ac arwyddion ffordd i roi sylw dyledus i ogof Twm Sion Cati ger Rhandirmwyn;

  - Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr yn 2il noson wobrwyo Dathlu Diwylliant y Sir, yn enwedig i Cerys Angharad, a enillodd y wobr talent ifanc ac i Gwyn Nicholas, Llanpumsaint am ei gyfraniad oes i gerddoriaeth ac i'w gymuned;

  - Mynegwyd llongyfarchiadau i bawb o'r rheiny a gafodd eu hanrhydeddu am amrywiol gyfraniadau clodwiw mewn noson wobrwyo ym mhentref Penygroes, a oedd yn cynnwys y Cynghorydd Dai Thomas a dderbyniodd wobr am ei gyfraniad oes i'w gymuned.

- Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau yng Ngwobrau Slow Food Cymru:-

  - Marchnad Caerfyrddin am ennill gwobr 'Marchnad Orau Cymru';
  - Wrights Emporium, Llanarthne am ennill gwobr y Deli/Groser Gorau;
  - Blasus Delicatessen, Caerfyrddin am ennill gwobr y Siop Gaws Orau.

- Mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Owain Baxter ac Owen Bailey o ward Cydweli a ddewiswyd i chwarae criced dros Gymru.

- Adroddodd y Cadeirydd fod Gwobr Athletau Sportshall y DU 2019 i gael ei chyflwyno i Ysgrifennydd Ysgolion Dyfed, Hedydd Davies, yn rownd derfynol y DU yn Sport City Manceinion ar ddydd Sadwrn 13 Ebrill 2019.

- Dymunai'r Cadeirydd fynegi ei ddymuniadau gorau i Ddirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys Richard Lewis ar gael ei benodi'n ddiweddar yn Brif Gwnstabl Heddlu Cleveland.

- Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Gôr Ysgol Gymraeg Teilo Sant a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth Côr Cymru Cynradd.

- Dymunai'r Cadeirydd dynnu sylw at ddathliadau pen-blwydd y Mudiad Meithrin

- Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Ysgol Pum Heol am:-

  - ennill Pencampwriaeth Pêl-rwyd Sir Gaerfyrddin gan fynd ymlaen i gynrychioli Sir Gaerfyrddin yn rownd derfynol Cymru.

  - ennill Rownd Ranbarthol Llanelli a'r Cylch yng Nghystadleuaeth Bêl-droed yr Urdd i Ysgolion Cynradd a mynd ymlaen i chwarae yn Rownd Derfynol Cymru yn Aberystwyth ar 11 Mai.

  - y Tîm Rygbi sy'n mynd trwodd i Rownd Derfynol Ysgolion Llanelli.

- Dymunai'r Cadeirydd estyn ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Edward Thomas, a oedd fel rhan o'i rôl faerol yn codi arian i dair elusen trwy fynd ar daith gerdded noddedig ar 19 Mai 2019.

- Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchiadau i'r rheiny sydd wedi cefnogi'r elusennau a ddewiswyd ganddo.

- Cyfeiriwyd at y ffaith fod Dr David Nott, a aned yn Ysbyty Heol y Prior Caerfyrddin ac a fu'n byw gyda'i dad-cu a'i fam-gu yn Nhre-lech tan ei fod yn bedair oed, wedi cyhoeddi llyfr yn gynharach eleni o'r enw 'War Doctor'. Bu Dr Nott, llawfeddyg ymgynghorol o Gymru a weithiai'n bennaf yn ysbytai Llundain fel llawfeddyg cyffredinol a fasgwlar, yn gwirfoddoli yn rhai o ardaloedd rhyfel peryclaf y byd. Roedd ei lyfr War Doctor yn cydnabod ei fagwraeth yng Nghymru.

**4. CYMERADWYO A LLOFNODI COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 20 CHWEFROR 2019 YN GOFNOD CYWIR**

**4.1. 20 CHWEFROR 2019**

Nododd y Cyngor bod y Cynghorydd Karen Davies yn bresennol yn y cyfarfod hwn ac y byddai'r cofnodion yn cael eu newid i adlewyrchu hyn.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2019 yn gofnod cywir, yn amodol ar y newid a nodwyd uchod.**

**4.2. 6 MAWRTH 2019**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2019 yn gofnod cywir.**

**5. YSTYRIED ENWEBU CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2019/2020**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL enwebu'r Cynghorydd Kevin Madge yn Ddarpar Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019/20.**

## 6. YSTYRIED ENWEBU IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2019/2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL enwebu'r Cynghorydd Ieuan Wyn Davies yn Ddarpar Is-Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019/20.**

## 7. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 8. CYFLWYNO DEISEB

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Ms J. Adams, Aelod o Gymdeithas Preswylwyr Dwyrain Machynys, a wahoddwyd i gyflwyno'r ddeiseb ganlynol i'r Cyngor ynghylch 'Mabwysiadu Ystâd Dai Dwyrain Machynys, Llanelli' ac i siarad am y mater.

> "Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn deisyf ar Gyngor Sir Caerfyrddin i wrthdroi eu penderfyniad blaenorol a chytuno i fabwysiadu'r ffyrdd yn natblygiad Dwyrain Machynys, Llanelli, SA15.
>
> Nid ydym eisiau byw ar ystâd breifat, gan ein bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o gostau ffioedd cynnal a chadw blynyddol a fydd yn cynyddu. Fel trethdalwyr y Cyngor, rydym o'r farn y dylai'r Cyngor fabwysiadu a chynnal ffyrdd yr ystâd.
>
> Rydym felly'n gofyn i'r Cyngor Sir roi ystyriaeth briodol i'r ddeiseb hon. O'r 226 o aelwydydd yn y datblygiad, mae 87% wedi llofnodi'r ddeiseb hon"

Rhoddodd Ms Adams amlinelliad i'r Cyngor o'r cefndir a'r rhesymau dros y ddeiseb mewn perthynas ag adeiladu ffyrdd preifat gan y datblygwr 'Persimmon Homes'. Roedd y ddeiseb yn dangos y byddai'n well gan fwyafrif y bobl sydd wedi prynu eiddo ar Ystâd Dwyrain Machynys, fel trethdalwyr y Cyngor, pe bai'r Cyngor Sir yn mabwysiadu'r ffyrdd.

O'r 224 o aelwydydd sydd ar Ystâd Dwyrain Machynys, roedd 125 yn aelodau o Gymdeithas y Preswylwyr ac roedd y ddeiseb a gyflwynwyd i'r Cyngor yn cynnwys llofnodion 86% o'r aelwydydd, a oedd yn arwydd o gryfder teimladau'r preswylwyr ynghylch y mater a godwyd.

Ymhellach, mynegodd Ms Adams fater cysylltiedig, sef sicrhau bod Persimmon Homes yn darparu ffyrdd wedi'u hadeiladu i'r safonau sy'n ofynnol gan adran priffyrdd yr Awdurdod Lleol ac fel y pennir yn y cais cynllunio.

Wedi iddi roi ei chyflwyniad, trosglwyddodd Ms Adams y ddeiseb yn ffurfiol i Gadeirydd y Cyngor.

Gwnaethpwyd nifer o sylwadau a oedd yn cefnogi'r ddeiseb. Yn ogystal, gwnaethpwyd sawl sylw ynglŷn â phroblemau tebyg yr oedd pobl yn eu profi ledled y Sir.

Gwnaethpwyd datganiad bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tasglu i ddatrys y broblem ynglŷn â ffyrdd heb eu mabwysiadu a bod disgwyl cael adroddiad yn fuan.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gyfeirio'r ddeiseb at yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd i'w hystyried yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 10.14.**

**9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan aelodau.

**10. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-**

**10.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD JANE TREMLETT**

Ystyriodd y Cyngor y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Jane Tremlett:-

> "Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Talacharn wedi cynnal ymgyrch i wneud Talacharn yn ddi-blastig.
>
> Mae busnesau lleol wedi cytuno i waredu plastig untro, yn yr un modd â sefydliadau arlwyo lleol, Ysgol Gynradd Talacharn, Cyngor Cymuned Talacharn a Neuadd Goffa Talacharn. Mae sesiynau casglu sbwriel wedi cael eu cynnal ar y blaendraeth a'r Ginst yn ogystal ag o amgylch y strydoedd. Mae symiau mawr o blastig (mawr a bach) wedi cael eu casglu. Gydag oedran, mae plastig yn mynd yn fregus ac yn datgymalu yn eich dwylo wrth ichi ei godi ac o ganlyniad, yn angheuol i adar ac anifeiliaid bach. Y cyfan hwn mewn Ardal Gadwraeth Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
> Talacharn yw'r gymuned gyntaf yn Sir Gaerfyrddin i gael ei chydnabod gan yr ymgyrch genedlaethol o dan arweiniad Surfers Against Sewage (SAS) fel y gwelir ar y map ar y wefan.
>
> Caiff yr ymgyrch leol ei harwain gan grŵp llywio Talacharn Di-Blastig sy'n cynnwys preswylwyr lleol ymroddedig.
>
> Mae'r Cynnig hwn yn gofyn i'r Cyngor gydnabod a chefnogi'r ymgyrch dros Dalacharn Di-Blastig a hyrwyddo ei amcan o leihau plastig untro lle bynnag y bo modd. Yn ogystal mae'n gofyn i'r Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Genedlaethol i ddeddfu bod cwmnïau masnachol a gweithgynhyrchu yn defnyddio deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn unig."

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei gefnogi.**

**10.2. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES**

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rob James:-

"Bod y Cyngor hwn:-

a) yn cymeradwyo Adolygiad Annibynnol Llywodraeth Cymru/DU ac Adolygiad Mewnol dan arweiniad Cyngor Sir Penfro o ran y Fargen Ddinesig;

b) yn derbyn yr holl argymhellion yn y ddau adroddiad ac yn credu y dylid eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl;

c) yn cefnogi'r defnydd o we-ddarlledu ar gyfer holl gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor a'r Pwyllgor Craffu ar y Cyd yn y dyfodol;

d) yn cefnogi newidiadau cyfreithiol rwymol i'r Cytundeb Cyd-bwyllgor i weithredu'r newidiadau angenrheidiol."

Eiliwyd y Cynnig.

Cynigiwyd y gwelliant canlynol i'r cynnig gan y Cynghorydd E. Dole a chafodd ei eilio:

"Mae'r Cyngor hwn yn argymell bod y Cyd-bwyllgor:

a) yn derbyn ac yn ystyried yr holl argymhellion a wnaed gan Adolygiad Annibynnol Llywodraeth y DU/Llywodraeth Cymru, yr Adolygiad Mewnol dan arweiniad Cyngor Sir Penfro, adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a'r adroddiad cyfreithiol allanol ar y Fargen Ddinesig;

b) sicrhau bod holl gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor a'r Pwyllgor Craffu ar y Cyd yn y dyfodol yn cael eu gwe-ddarlledu, lle mae Cyfleusterau o'r fath ar gael;

c) yn cefnogi newidiadau cyfreithiol rwymol i'r Cytundeb Cyd-bwyllgor i weithredu'r newidiadau angenrheidiol."

Rhoddwyd cyfle i Gynigydd ac Eilydd y Gwelliant siarad o'i blaid a rhoesant amlinelliad o'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Gwelliant.

Gwnaed nifer o ddatganiadau a gefnogai'r Cynnig a'r Gwelliant.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r Gwelliant i'r Cynnig.**

**11. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR 4 MAWRTH 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad y cyfarfod uchod.**

**12. YSTYRIED ARGYMHELLIAD PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD GYDA GOLWG AR YR EITEM GANLYNOL:-**

## 12.1. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW), (CHWEFROR, 2019)

[Sylwer: Datganodd y Cynghorydd R James fuddiant yn yr eitem hon a gadawodd y Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2019 (gweler Cofnod 4), wedi ystyried y penderfyniadau a'r argymhellion oedd yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a oedd wedi ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2019, gyda golwg ar argymell bod y Cyngor yn eu cynnwys yng Nghynllun Cyflogau a Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2019/20.

Cyfeiriwyd at yr opsiynau cyhoeddi ar gyfer ad-dalu costau gofal ac argymhelliad Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd fod Opsiwn 2 yn cael ei fabwysiadu sef cyhoeddi'r “cyfanswm a ad-dalwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ond heb briodoli’r taliadau i unrhyw aelod”.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod Opsiwn 1 yn cael ei fabwysiadu a bod manylion y swm a gaiff ei ad-dalu i aelodau a enwir yn cael eu cyhoeddi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu argymhellion Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, yn amodol ar fod yr opsiwn cyhoeddi ad-daliadau costau gofal yn cael ei newid i Opsiwn 1.**

## 13. AELODAETH PWYLLGORAU CRAFFU, PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO A PHWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR A PHENODI AELODAU I WASANAETHU ARNYNT

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990, fel y'u diwygiwyd, rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yn manylu ar ganlyniad adolygiad o gyfansoddiad Pwyllgorau Craffu, Pwyllgorau Rheoleiddio a phwyllgorau eraill y Cyngor yn dilyn ymddiswyddiad 5 Aelod o'r Grŵp Llafur a'r hysbysiad o greu grŵp newydd a fydd yn cael ei adnabod fel y Grŵp Annibynnol Newydd. Ystyriodd y Cyngor adroddiad a gafwyd gan y Grŵp Llafur a'r Grŵp Annibynnol Newydd, a nodai fanylion y newidiadau arfaethedig i'r aelodaeth.

Er mwyn adlewyrchu'r trefniadau newydd, nododd y Cyngor y byddai lleihad o 11 sedd yn cael ei wneud i gynrychiolaeth y Grŵp Llafur ar Bwyllgorau sef o 52 i 41, ac y byddai gan y Grŵp Annibynnol Newydd hawl i ddyraniad o'r 11 sedd. Er y byddai dyraniad y seddi i Blaid Cymru, y Grŵp Annibynnol a'r grŵp aelodau heb gysylltiad pleidiol yn aros heb newid, byddai'r Grŵp Annibynnol yn colli un sedd ar y Pwyllgor Craffu i'r Grŵp Llafur.

Mewn ymateb i'r newidiadau gofynnol fel y'u nodwyd yn nhabl 2B yn yr adroddiad, roedd y Grŵp Llafur wedi cytuno i ildio un sedd ar y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd, y Pwyllgor Craffu - Addysg a Gwasanaethau Plant, y Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau a'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Roedd y Grŵp Annibynnol Newydd wedi enwebu 4 aelod i lenwi eu seddi Craffu fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Gyda golwg ar fod y newidiadau yn effeithio ar y sedd Reoleiddio fel y nodwyd yn Nhabl 3 yn yr adroddiad, roedd y Grŵp Llafur wedi cytuno i ildio sedd ar 6 Phwyllgor Rheoleiddio a Phwyllgorau eraill. Mae'r adroddiad yn nodi'r Aelodau a enwebwyd o'r Grŵp Annibynnol i lenwi seddi a ildiwyd gan y Grŵp Llafur.

Nododd y Cyngor bod y Grŵp Annibynnol Newydd wedi dweud na fyddent yn hawlio eu dyraniad o 2 Sedd ar y Pwyllgor Cynllunio, ac y byddai'r seddi hyn yn aros yn wag nes bod y Grŵp yn rhoi gwybod fel arall. Yng ngoleuni hyn, codwyd pryderon y gallai lleihau aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio o 20 i 18 achosi rhai anawsterau mewn achosion o ymddiheuriadau ynghyd â datganiadau posibl o fuddiant, a fyddai'n cynyddu'r perygl o Bwyllgor heb gworwm. Byddai trafodaethau'n cael eu cynnal er mwyn gweld a fyddai modd i'r Grŵp ddatrys y mater hwn.

At hynny, yn unol â Rhan 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n gosod y gofynion ar gyfer penodi Pobl i Gadeirio Pwyllgorau Craffu a Throsolwg, nododd y Cyngor bod y cyfrifiad yn datgelu un Cadeirydd heb ei ddyrannu, y byddai angen i aelodau'r Pwyllgor perthnasol ei benodi.

Roedd y Grŵp Llafur, y dyrannwyd 2 Gadair iddynt yn flaenorol, wedi rhoi gwybod y byddent yn ildio Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, ac y byddai'r Awdurdod felly yn trefnu bod y mater o benodi Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu - Cymunedau.

**PENDERFYNWYD, o ganlyniad i newidiadau i aelodaeth wleidyddol gyffredinol y Cyngor:**

**13.1 fabwysiadu'r newidiadau i nifer y seddi a ddelir gan y Grŵp Llafur a'r Grŵp Annibynnol Newydd, fel y manylir yn Nhablau 1, 2 a 3 yr adroddiad;**

**13.2 nodi nad oedd dim newidiadau i nifer y seddi sy'n cael eu dal gan Grŵp Plaid Cymru, y Grŵp Annibynnol a'r Aelodau heb Gysylltiad Pleidiol;**

**13.3 yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2 (2) (n), cymeradwyo newidiadau yn aelodaeth y Pwyllgorau yn sgil argymhelliad 13.1 uchod (fel y manylir yn yr adroddiad);**

**13.4. yn unol â Rhan 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, nodi bod Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau yn cael ei benodi gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau yn y cyfarfod nesaf.**

**14. CYMERADWYO'R NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU:-**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2(2)(n), roedd yr enwebiadau canlynol wedi dod i law gan y Grŵp Llafur a

**PHENDERFYNWYD:**

**14.1 nodi bod y Cynghorydd Fozia Akhtar a'r Cynghorydd Rob Evans yn cymryd seddi Llafur gwag ar y Pwyllgor Craffu - Cymunedau;**

**14.2 nodi y byddai'r Cynghorydd Colin Evans yn cymryd lle'r Cynghorydd Deryk Cundy ar y Pwyllgor Craffu - Cymunedau;**

**14.3 nodi y byddai'r Cynghorydd Derek Cundy yn cymryd lle'r Cynghorydd Colin Evans ar y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau;**

**14.4 nodi y byddai Amanda Fox yn cymryd y sedd Lafur wag ar y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd;**

**14.5 nodi y byddai'r Cynghorydd Suzy Curry yn cymryd y sedd Lafur wag ar Bwyllgor Penodi 'A';**

**14.6 nodi y byddai'r Cynghorydd Andre McPherson yn cymryd y sedd Lafur wag ar y Panel Adolygu Tai.**

**15. PENODI AELODAU I WASANAETHU AR BWYLLGORAU YMGYNGHOROL Y CYNGOR AC AR GYRFF ALLANOL YN AMODOL AR Y GOFYNION O RAN CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL.**

Yn dilyn y rhybudd a roddwyd bod 5 Aelod wedi ymddiswyddo o'r Grŵp Llafur a'u bod yn dilyn hynny wedi ffurfio grŵp newydd a gaiff ei adnabod fel y Grŵp Annibynnol Newydd. Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad a gyflwynai'r newidiadau ôl-ddilynol i aelodaeth wleidyddol gyffredinol y Cyngor a bu'n adolygu'r trefniadau ar gyfer dyrannu seddi i grwpiau gwleidyddol.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ffaith y byddai angen i'r Grŵp Llafur ildio sedd ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i'r Grŵp Plaid Cymru, ac y byddai angen i'r Grŵp Llafur ildio sedd ar Weithgor Trawsbleidiol Adolygu'r Cyfansoddiad i'r Grŵp Annibynnol Newydd.

Nododd y Cyngor bod y newidiadau ond yn effeithio ar y dyraniad seddi i'r grwpiau gwleidyddol ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad.

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer y trefniadau newydd er mwyn cael cynrychiolaeth ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad.

**PENDERFYNWYD:**

**15.1** **nodi y byddai'r Aelod Plaid Cymru y Cynghorydd Mansel Charles yn cymryd lle'r Aelod o'r Grŵp Llafur Colin Evans ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru;**

**15.2** **nodi y byddai'r Aelod o'r Grŵp Annibynnol Newydd y Cynghorydd Jeff Edmunds yn cymryd lle'r Aelod o'r Grŵp Llafur y Cynghorydd John James ar Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad.**

**15.3** **nodi nad oedd dim newidiadau'n ofynnol o ran yr aelodaeth a dyraniad y seddi ar gyfer y canlynol:**

**- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**
**- Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys;**
**- Y Panel Ymgynghorol ynghylch y Polisi Tâl.**

**CADEIRYDD** ____________________ **DYDDIAD** ____________________